Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol | Equality and Human Rights Commission

Russell George
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
**Trwy e-bost yn unig**

**Oddi wrth**: Martyn Jones DR YH, Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru

Ein cyf: 20240307GeorgeCymreag

Dydd Iau 07 Mawrth 2024

Annwyl Russell George,

**Trais yn erbyn menywod a merched**

Rwy'n ysgrifennu i dynnu eich sylw at ein hadroddiad cynhwysfawr, a gyhoeddwyd heddiw, yn dadansoddi perfformiad Llywodraethau'r DU a Chymru o ran cynnal Confensiwn Istanbwl. Yn benodol, hoffem dynnu sylw at rai o'i argymhellion sy'n berthnasol i Lywodraeth Cymru. Rydym wedi cyhoeddi ein dadansoddiad o gonfensiwn Istanbwl ar ein gwefan.

**Confensiwn Istanbwl**

Fel y gwyddoch, cadarnhaodd Llywodraeth y DU Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Atal a Goresgyn Trais yn erbyn Menywod a Thrais Domestig ('Confensiwn Istanbwl') ym mis Gorffennaf 2022. Croesawyd y cam pwysig hwn gennym. O'r herwydd, mae Llywodraethau'r DU a Chymru bellach wedi'u rhwymo gan gyfraith ryngwladol i amddiffyn menywod a merched rhag trais. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau atal, erlyn y rhai sy'n gyfrifol, a diogelu goroeswyr.

Mae ein hadroddiad wedi'i gyflwyno i gefnogi gwerthusiad arbenigwyr Cyngor Ewrop ar drais yn erbyn menywod a merched ('GREVIO') o weithrediad y Confensiwn.

Fel Sefydliad Hawliau Dynol Cenedlaethol statws A, rydym wedi darparu ein dadansoddiad annibynnol ar gydymffurfiaeth â'r Confensiwn, ac argymhellion ar gyfer newid, i gefnogi asesiad GREVIO, gan gynnwys drwy gyfarfod â'r arbenigwyr ym mis Ionawr 2024. Mae'n bleser gennym rannu ein hadroddiad â chi heddiw, sy'n adlewyrchu'r rhaglen waith hon.

Yn seiliedig ar ein dadansoddiad, rydym yn croesawu targedau uchelgeisiol y ddwy lywodraeth i wella diogelwch menywod a merched, a'u ffocws ar ysgogi gwelliannau. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd i wireddu'r targedau hyn i fenywod a merched. Rydym yn amlinellu rhai o'n hargymhellion yma.

**Mesur cynnydd**

Er mwyn hwyluso gwelliannau i ddiogelwch menywod a merched, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dangosyddion newydd i fesur cynnydd wrth weithredu ei strategaeth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol bresennol yn ddi-oed. Gan na chyhoeddodd Llywodraeth Cymru unrhyw wybodaeth gynhwysfawr am gynnydd yn erbyn ei dangosyddion ar gyfer 2019, rydym o'r farn ei bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru fabwysiadu mwy o ffocws ar gyflawni a thryloywder.

**Mynediad i lochesi cam-drin domestig**

Mae ein gwaith hefyd wedi amlygu'r angen i sicrhau hygyrchedd llochesi cam-

drin domestig i fenywod anabl. Yn 2021/22, dim ond 1.1% o'r lleoedd gwag mewn llochesau a restrir ar y gronfa ddata ar gyfer y DU gyfan oedd yn addas ar gyfer menyw â symudedd cyfyngedig. Dim ond 0.9% allai ddarparu lle hygyrch i gadeiriau olwyn. Rydym yn croesawu penderfyniad diweddar Llywodraeth Cymru i gynnig cyllid grant i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch. Credwn y dylai sicrhau bod data'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol ar gynnydd i wella hygyrchedd.

**Amddiffyniad i fudwyr sy'n ddioddefwyr trais**


Mae angen amddiffyniad pellach ar fudwyr sy'n ddioddefwyr trais er mwyn sicrhau bod eu hawl i driniaeth gyfartal o dan Gonfensiwn Istanbwl yn cael ei chynnal. Nid oes gan y rhai nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus fynediad cyfartal at wasanaethau cymorth ar hyn o bryd, er enghraifft. Rydym yn croesawu bod Llywodraeth Cymru yn ariannu'r Gronfa Gymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr Trais fel peilot. Rydym yn eu hannog i rannu canfyddiadau o'r cynllun peilot pan fyddant ar gael, yn ogystal â sicrhau cymorth tymor hwy i ddiwallu anghenion mudwyr sy'n ddioddefwyr nad oes ganddynt hawl i arian cyhoeddus.

Byddem yn hapus i gyfarfod i drafod y materion hyn ymhellach, ac yn eich gwahodd i ystyried ein hadroddiad, a'i argymhellion ar gyfer newid, yn ofalus.

Yr eiddoch yn gywir,

Arndale House, The Arndale Centre
Manchester, M4 3AQ

**equalityhumanrights.com**



Martyn Jones DR YH

**Cadeirydd Dros Dro**

**Pwyllgor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru |**

Arndale House, The Arndale Centre
Manchester, M4 3AQ

**equalityhumanrights.com**